# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Hydref 2019

Amser: 08.30 - 08.41

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir yr holl bleidleisiau cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid canlynol i Fusnes y Llywodraeth ar gyfer y 3 wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 5 Tachwedd 2019 –**

- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Diweddariad Blynyddol ar Ddiwygio Cyllid Llywodraeth Leol (45 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) (15 munud) – tynnwyd yn ôl

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 13 Tachwedd 2019 –**

- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2020-21 (30 munud)
- Dadl Fer Vikki Howells (Cwm Cynon)
- Dadl Cyfnod 3 Y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) (180 munud)

# 4 Pwyllgorau

## 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar gais y Pwyllgor i gynnal cyfarfod y tu allan i'w amser arferol ar yr amserlen.

# 5 Rheolau Sefydlog

## 5.1 Cwestiynau Llafar y Cynulliad

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad i leihau nifer y Cwestiynau Llafar sy'n ymddangos ar agenda'r Cyfarfod Llawn o 15 i 12, ac i ddiweddaru'r Canllawiau ar Ymddygiad Priodol busnes y Cynulliad yn unol â hynny.

Cytunwyd hefyd i gynnig y newid i Reol Sefydlog 12.63 i wneud y gostyngiad yn y nifer o weithiau y gall Aelod fynd i mewn i'r bleidlais ar gyfer Cwestiynau Llafar Gweinidogol yn barhaol o ddwywaith i unwaith, a gosod adroddiad i'r perwyl hwn.

Mae Rheolwyr Busnes yn fodlon i'r Aelodau barhau i allu cyflwyno dau Gwestiwn Llafar i'r Cwnsler Cyffredinol yn ei rôl fel swyddog cyfreithiol.

Cytunwyd hefyd i leihau nifer yr Aelodau a ddewisir yn y bleidlais gychwynnol o 20 i 16, a diweddaru'r Canllawiau ar Ymddygiad Priodol busnes y Cynulliad yn unol â hynny.

## 5.2 Papur i'w nodi – Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Nododd y Rheolwyr Busnes y llythyr yn nodi sylwadau'r Pwyllgor ar Reol Sefydlog Biliau Cydgrynhoi arfaethedig.